# SESIWN 4
# GWAITH ANNIBYNNOL: YMCHWIL, PARATOI A CHAMAU GWEITHREDU

**Amser**

Dwy awr (o leiaf).

**Ynglŷn â'r sesiwn hon**

Bydd yn cymryd nifer o wersi (a gwaith cartref os bydd angen) i gwblhau'r sesiwn hon. Bydd y disgyblion yn gweithio'n annibynnol i raddau helaeth, yn paratoi eu cam gweithredu ac yn ei gyflawni.

**Amcanion dysgu**

Bydd y disgyblion yn gallu:
- sefydlu meini prawf o lwyddiant ar gyfer eu prosiect Cymryd Camau Gweithredu;
- cynnal dadansoddiad SWOT a gosod amserlen ar gyfer y camau gweithredu;
- paratoi ar gyfer ymchwil sylfaenol ac eilaidd a'i gynnal;
- cynhyrchu unrhyw ddeunyddiau sy'n ffurfio rhan o'u cam gweithredu, ee llythyrau, posteri, gwefannau;
- cymryd camau gweithredu

**Cwestiynau allweddol**

Sut olwg fydd ar lwyddiant?
A ydym ar drywydd y targed?

**Adnoddau sydd eu hangen**

Cyfrifiadur/gliniadur gyda thaflunydd ar gyfer sioe sleidiau PowerPoint
PowerPoint: Prosiect Cymryd Camau Gweithredu – Sesiwn 4
Taflen Waith 1- *Sut olwg fydd ar lwyddiant?* (un ar gyfer pob grŵp)
Taflen Waith 2 – *Dadansoddiad SWOT ac amserlen Cymryd camau gweithredu* (un ar gyfer pob grŵp)
*Ar drywydd y targed* (taflen waith 3 o sesiynau 2 a 3)
Mynediad at y Rhyngrwyd
Argraffydd lliw
Deunyddiau ar gyfer gwneud posteri, ee papur, ysgrifbinnau lliwio, siswrn
Un ffolder ar gyfer pob grŵp i gadw eu hymchwil ynddo

**Tudalennau gwe Amnest**

Gellir dod o hyd i'r wybodaeth ddefnyddiol ganlynol ar dudalen we Amnest
**www.amnesty.org.uk/povertyaction:**
- awgrymiadau ar gyfer holiaduron/awgrymiadau ar gyfer cyfweliadau/awgrymiadau ar gyfer arsylwi
- awgrymiadau ar chwilio am wybodaeth ar y rhyngrwyd
- awgrymiadau ar ysgrifennu'n berswadiol
- creu baneri a phosteri
- hyrwyddo eich digwyddiad (a gwybodaeth arall ar 'sut i wneud' ar gyfer grwpiau ieuenctid)
- aros yn ddiogel – risgiau, amddiffyn plant, goruchwyliaeth gan oedolion, ayyb

**Dywedwch wrthym beth rydych chi'n ei wneud**

Os ydych chi neu eich disgyblion yn cynllunio ymgyrch Cymryd Camau Gweithredu gwych, rhowch wybod i ni amdani. Byddem wrth ein boddau i rannu eich syniadau gydag eraill drwy ein gwefan Diogelu Dynolryw. Ewch i **www.protectthehuman.com** i gael mwy o wybodaeth (nodwch y telerau a'r amodau a'r canllawiau ar Amddiffyn Plant ar y safle).

SESIWN 4
# GWAITH ANNIBYNNOL

Isod ceir cynllun gwers ar gyfer y wers gyntaf yn y sesiwn hon. Dylai'r disgyblion weithio'n annibynnol mewn gwersi dilynol, gyda'r athro'n cymryd rôl yr hwylusydd.

**Cynllun y sesiwn**

| Amser | Cyflwyniad | Adnoddau |
|---|---|---|
| 0-10 munud | Dychwelwch y taflenni gwaith *Ar Drywydd y Targed* i bob grŵp prosiect i'w hatgoffa o'u hamcan, cam gweithredu, rolau a chyfrifoldebau. Rhowch gopi o'r daflen waith *Sut olwg fydd ar lwyddiant?*(taflen waith 1) i bob grŵp a'u hannog i gwblhau'r gweithgaredd cyntaf mor greadigol â phosibl. | Sesiwn 4<br>Sleidiau PowerPoint 1-3<br>Taflenni gwaith<br>*Ar Drywydd y Targed o* sesiynau 2 a 3 |
| **Gweithgareddau** | | |
| 10-30 munud | **Adnabod meini prawf llwyddiant**<br>Esboniwch y bydd disgyblion, yn y gweithgaredd hwn, yn myfyrio ar yr hyn a fydd yn gwneud eu prosiect yn llwyddiant a sut y byddant yn mesur y llwyddiant hwnnw. Gofynnwch i'r dosbarth edrych ar yr enghraifft o Brosiect Cymryd Camau Gweithredu a roddir ar sleid 4 – a allant awgrymu meini prawf llwyddiant a ffyrdd o fesur llwyddiant ar gyfer pob cam gweithredu? Ewch trwy'r atebion awgrymedig ar sleid 5. Wedyn gofynnwch i'r grwpiau gwblhau'r ail weithgaredd ar daflen waith 1, gan adnabod meini prawf llwyddiant ar gyfer eu prosiect nhw eu hunain.<br>Os ydych yn asesu'r Prosiectau Cymryd Camau Gweithredu, er enghraifft fel rhan o gwrs arholiad, dosbarthwch y meini prawf asesu perthnasol ar gyfer eich maes llafur chi a darllenwch trwyddo fel bod y disgyblion yn deall disgwyliadau eu bwrdd arholi. | *Sut olwg fydd ar lwyddiant?*<br>(taflen waith 1)<br><br>Sleidiau PowerPoint 4-5 |
| 30-50 munud | **Dadansoddiad ac amserlen SWOT**<br>Gofynnwch i'r disgyblion gwblhau *Dadansoddiad SWOT ac Amserlen cymryd camau gweithredu* (taflen waith 2) a gosodwch amserlen ar gyfer eu prosiect gyda graddfeydd amser a therfynau amser realistig. Os bydd amser ar ôl y gweithgaredd amserlenni, dylech awgrymu eu bod yn dechrau gweithio ar gynllunio ymchwil sylfaenol. | *Dadansoddiad SWOT ac Amserlen cymryd camau gweithredu*<br>(taflen waith 2)<br><br>Sleidiau PowerPoint 6-7 |
| 50-60 munud | **Cyfarfod llawn y grŵp**<br>Gofynnwch i'r disgyblion osod targedau ar gyfer y wers nesaf. | |

**Beth i'w wneud yn y gwersi eraill yn Sesiwn 4**

Yn y gwersi dilynol bydd y disgyblion yn gweithio'n annibynnol yn paratoi ar gyfer eu cam gweithredu ac yn ei gyflawni. Trefnwch gyfarfodydd gwirio gyda'r grwpiau drwy gydol y gwersi hyn a gofynnwch:

- Dywedwch wrthyf am eich amcan a'ch cam gweithredu. Nawr eich bod wedi gwneud rhywfaint o ymchwil cychwynnol, a oes angen i chi adolygu neu newid eich cam gweithredu?
- Dywedwch wrthyf beth rydych chi i gyd yn ei wneud i gyflawni eich rolau a'ch cyfrifoldebau. A yw eich tîm yn gweithio'n dda gyda'i gilydd?
- Beth sy'n mynd yn dda? A oes rhywbeth y gallwch fod yn ei wneud yn well neu'n wahanol?
- A ydych yn meddwl y byddwch wedi cyflawni popeth erbyn y terfyn amser a osodwyd? A yw eich amserlen yn realistig?

Yn dibynnu ar y mathau o gamau gweithredu y mae eich dosbarth yn eu cymryd, efallai bydd angen cynnal y gweithgareddau Ymchwil Sylfaenol a Chymryd Camau Gweithredu y tu allan i wersi. **Dylai athrawon ystyried canllawiau Iechyd a Diogelwch ac Amddiffyn Plant yr ysgol a gwneud y disgyblion yn ymwybodol o'r rhain, yn enwedig os byddant yn cymryd camau gweithredu y tu allan i oriau ysgol.**

Dylech annog y disgyblion yn y dosbarth i ddangos cefnogaeth am brosiectau ei gilydd drwy fynychu digwyddiadau a chymryd rhan mewn cyfweliadau ayyb.

# SESIWN 4 **TAFLEN WAITH 1**

# SUT OLWG FYDD AR LWYDDIANT?

**1. Dychmygwch fod eich prosiect yn llwyddiant. Sut olwg fydd ar lwyddiant?**

Tynnwch lun delweddau a geiriau allweddol yn y bocs isod.

# SUT OLWG FYDD AR LWYDDIANT?

**2. Nawr defnyddiwch eich syniadau i nodi meini prawf llwyddiant ar gyfer eich prosiect.**

| Beth allai newid o ganlyniad i'ch cam gweithredu? | Meini prawf llwyddiant: sut byddwch yn gwybod os byddwch wedi llwyddo? | Sut gallwch chi fesur llwyddiant? |
|---|---|---|
| Polisi | | |
| Ymddygiad pobl | | |
| Agweddau pobl | | |
| Arian a godwyd | | |
| Sylw gan y cyfryngau | | |
| Sgiliau a ddatblygwyd | | |
| Gwybodaeth a gafwyd | | |
| Arall | | |

# SESIWN 4 **TAFLEN WAITH 2**

# DADANSODDIAD SWOT

**Dychmygwch fod eich prosiect yn llwyddiant. Sut olwg fydd ar lwyddiant?**

| | |
|---|---|
| **Cryfderau:** Pam fod hyn yn ddewis da o gam gweithredu i ni? | **Cyfleoedd:** Pa adnoddau sydd ar gael i ni? |
| **Gwendidau:** Pa gymorth a all fod ei angen arnom? (ee cymorth a goruchwyliaeth gan oedolion) | **Bygythiadau:** Pa anawsterau a allwn fod yn eu hwynebu? (ee materion iechyd a diogelwch, problemau gydag adnoddau/ lleoliadau/ diffyg diddordeb) |

# SESIWN 4 **PARHAD I DAFLEN WAITH 2**
# **AMSERLEN CYMRYD CAM GWEITHREDU**

**Amserlen cymryd camau gweithredu**

| Cam gweithredu | Dyddiad/nodiadau |
|---|---|
| Caiff ein holl ymchwil sylfaenol ac eilaidd ei gwblhau erbyn… | |
| Caiff ein paratoadau ar gyfer cam gweithredu eu cwblhau erbyn...<br><br>A ydych chi wedi meddwl am:<br><br>• Erbyn pryd mae'n rhaid i'r adnoddau fod yn barod?<br>• Pryd mae'n rhaid cael pobl eraill i gymryd rhan?<br>• Pryd mae'n rhaid i'r cyhoeddusrwydd fod yn barod?<br>• Pryd bydd rhaid i chi archebu lleoliad?<br>• Pryd bydd rhaid anfon gwahoddiadau?<br>• A oes angen unrhyw gymorth ychwanegol arnoch?<br>• A oes angen unrhyw ganiatâd arbennig arnoch ar gyfer unrhyw weithgareddau?<br><br>Arall: | |
| Byddwn yn cymryd cam gweithredu ar y dyddiad canlynol... | |
| Amser y cam gweithredu | |
| Lleoliad y cam gweithredu | |
| Byddwn yn cwblhau ein gwerthusiadau erbyn… | |